# Taflen Gofnodi'r Tomenni Glo

buglife Cymru

**Mae dros 1000 o rywogaethau o infertebratau wedi eu cofnodi ar safleoedd tomenni glo yn Ne Cymru.** Allwch chi ddod o hyd i rai o'r rhywogaethau pryfed eiconig hyn?



### Cacwn y llus
*(Bombus monticola)*

**Ebrill i Fedi**

Dros hanner yr abdomen yn oren/coch ac mae hefyd ddau fand melyn ysgafn ar y thoraces.



### Gwibiwr llwyd
*(Erynnis tages)*

**Mis Mai i fis Mehefin**

Bach a tebyg i wyfyn. Adennydd llwyd-frown gyda marciau brown brith a dwy res o smotiau gwyn bach.



### Iâr fach y graig
*(Hipparchia semele)*

**Mis Gorffennaf i fis Medi**

Blaenau'r adenydd yn bennaf yn frown tywyll ac oren, gyda phatrwm cain llwyd a du ar yr adennydd cefn.



### Pili pala glas cyffredin
*(Polyommatus icarus)*

**Mis Mai i fis Medi**

Mae'r gwrywod yn amlwg gyda'u adenydd glas fioled, gyda marciau gwyn clir ar ymyl yr adennydd.



### Chwilen teigr gwyrdd
*(Cicindela campestris)*

**Mis Ebrill i fis Medi**

Chwilen fawr, gwyrdd metalig gyda choesau a llygaid porffor-efydd, a smotiau hufen ar glawr yr adennydd.



### Gwas neidr aurdorchog
*(Cordulegaster boltonii)*

**Mis Mai i fis Medi**

Mae'r thoracs a'r abdomen yn ddu gyda bandiau melyn. Mae gan oedolion hefyd lygaid gwyrdd.

**Caiff y prosiect ei gyllido drwy Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru drwy raglen gwaith 'Gwent Fwyaf Gydnerth'.** Mae'r rhaglen yn parhau tan haf 2022 ac mae'n gweithio i sicrhau De Ddwyrain Cymru lle mae adferiad mewn natur a chymunedau cynaliadwy yn gwerthfawrogi eu tirluniau a bywyd gwyllt ac yn cymryd rhan ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

**Os hoffech rannu'r bywyd gwyllt yr ydych wedi ei weld, anfonwch eich cofnodion at Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC).**

A Resilient Greater Gwent

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government